

VAUGHAN, ROWLAND (c. 1590 -1667), Caer Gai, Sir Feirionnydd, bardd, cyfieithydd, a Brenhinwr

Enw: Rowland Vaughan
Dyddiad geni: c. 1590
Dyddiad marw: 1667
Priod: Jane Vaughan (née Price)
Plentyn: Marged Vaughan
Plentyn: Mary Prys (née Vaughan)
Plentyn: Elsbeth Vaughan
Plentyn: Elin Vaughan
Plentyn: Gabriel Vaughan
Plentyn: William Vaughan
Plentyn: John Vaughan
Plentyn: Arthur Vaughan
Plentyn: Edward Vaughan
Rhiant: Ellen Vaughan (née Nanney)
Rhiant: John Vaughan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd, cyfieithydd, a Brenhinwr
Cartref: Caer Gai
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awduron: Megan Ellis, William Llewelyn Davies

Mab hynaf John Vaughan a'i wraig Ellen, merch **Hugh Nanney** o Nannau yn Sir Feirionnydd. Hanoedd y teulu (gweler J. E. Griffith, 3) o **Fychaniaid** Llwydiarth yn Sir Drefaldwyn, ac ymddengys (B.M. Harl. MS. 1973) mai taid Rowland Vaughan oedd y cyntaf o'r teulu i feddiannu Caer Gai. Ganed Rowland Vaughan tua 1590 a threuliodd beth amser yn Rhydychen er nad oes hanes iddo dderbyn gradd yno. Priododd Jane, ferch Edward Price o Dref Prys, Llanuwchllyn, ac yn ôl cywydd marwnad **Hugh Cadwaladr** iddo (**NLW MS 9B**), yr oedd tri mab a thair merch iddynt yn fyw pan fu farw Rowland Vaughan yn 1667, sef JOHN, a dderbyniwyd i Hall Hart (Coleg Hertford heddiw), Rhydychen, yn 1635, yn 18 mlwydd oed, a briododd Catherine, merch **William Wynn**, Glyn, Sir Feirionnydd, ac a ddewiswyd yn siryf dros Sir Feirionnydd yn 1669-70; EDWARD, a dderbyniwyd i Goleg All Souls, Rhydychen, yn 1634 yn 16 mlwydd oed ac a dderbyniodd y radd o B.A. yno yn 1637/8 a'r radd o M.A. yng Ngholeg Iesu yn 1640, ac a benodwyd wedi hynny yn ficer Upchurch yng Nghaint (1642) a Llanynys, sir Ddinbych (1647), ac yn rheithor Llangar (1662), Llanarmon Dyffryn Ceiriog (1662), a Mallwyd (1664); WILLIAM; ELIN; ELVBETH; a MARGED. Er hynny yn llawysgrif Harleian 1973 enwir pedwar mab iddynt, sef John, Edward, Arthur, a Gabriel a phedair merch, sef y tair a enwir gan **Hugh Cadwaladr** ynghyd â Mary, a briododd Peter Price, Cynllwyd, pedwerydd mab **Thomas Price**, Plas Iolyn, sir Ddinbych.

Yn unol â thrawdodiadau'r teulu cymerodd Rowland Vaughan ran flaenllaw ym mywyd gwladol ei sir ac fel ei dad, a lanwodd y swydd yn 1613/4 a 1620/1, penodwyd yntau'n siryf dros Sir Feirionnydd yn 1642/3. Yr oedd yn Frenhinwr selog a dywedir iddo gymryd rhan fel capten ym mrwydr Naseby. Yn sicr cymerodd ran yn y Rhyfel Cartrefol fel y dengys englynion a ganodd **William Phylip** iddo (**Peniarth MS 115**). Llosgwyd Caer Gai i'r llawr gan nifer o filwyr Cromwell ar eu ffordd o Sir Drefaldwyn yn 1645, rhoddwyd ei etifeddiaeth i nai iddo, a charcharwyd Vaughan ganddynt yng Nghaerleon yn 1650. Wedi diwedd y Rhyfel Cartrefol ac ar ôl blynyddoedd o gyfreithio adenillodd ei dir ac ailadeiladwyd Caer Gai.

Ceir mynych gyfeiriadau mewn amryw o'i gerddi ac englynion yn dangos yn eglur ei ddaliadau gwleidyddol a'r hyn a ddioddefodd o'u herwydd. Canodd nifer o gerddi'n ymwneuthur â phynciau'r dydd a nifer mawr o gerddi a charolau a dyriau o natur dduwiol, a chyfieithodd amryw o emynau adnabyddus i'r Gymraeg o'r Saesneg ac o'r Lladin. Priodolir y cyfieithiadau Cymraeg adnabyddus, ' Tyrd, Ysbryd Glân, i'n clonau ni,' a ' Tyrd, Ysbryd Glân, tragwyddol Dduw ' iddo; gweler J. **Thickens**, *Emynau a'u Hawduriad*, a *Llyfr Gweddî Gyffredin*, 1664. Canodd hefyd nifer o gywyddau ac englynion marwnad i amryw o uchelwyr Meirion. Cyhoeddwyd peth o'i waith yn *Carolau a Dyriau Duwiol*, 1729, a *Blodeu-Gerdd Cymru*, 1759, a chasgliadau eraill, a cheir llawer o'i gerddi mewn llawysgrifau cyfoes gan gynnwys amryw enghreifftiau yn ei lawysgrifen ei hun; gweler darlun o'i lawysgrifen rhwng 142 a 143 yn *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i.

Feallai er hynny mai fel cyfieithydd yr adnabyddir ef orau. Gweithiau o natur dduwiol yw ei gyfieithiadau a'r mwyafrif ohonynt yn pleidio achos yr Eglwys Sefydledig. Y cyntaf a'r pwysicaf a gyhoeddwyd oedd *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, o waith **Lewis Bayly**, yn 1630 - ailargraffwyd ef nifer o weithiau yn ystod y can mlynedd canlynol. Dilynwyd hwn yn 1658 gan *Yr Arfer o Weddî yr Arglwydd* (John Despaigne), *Pregeth yn erbyn Schism* (Jasper Mayne), *Prifannau Sanctaidd*, ynghyd â *Ymddiffyniad Rhag Pla a Schism* (William Brough), a *Prifannau Crefydd Gristnogawl*, ynghyd â *Y Llwybraidd-Fodd Byrr* (James Ussher), ac oddeutu'r flwyddyn 1660 gan *Evchologia* (John Prideaux). Dengys ei gyfieithiadau ddiwydrwydd a dyfalbarhad Rowland Vaughan yn ogystal â'i feistrrolaeth ar iaith gyfoethog ac ystywyth. Try'r cyfieithydd yn awdur o dro i dro megis yn ei ragymadroddion a'i llythrau cyflwyno, a cheir ynddynt nifer o gyfeiriadau at ddigwyddiadau hanesyddol cyfoes. Cyhoeddwyd nifer o'i garolau ac englynion hefyd yn y cyfrolau hyn.

Cyfieithodd Rowland Vaughan un llyfr pwysig arall, er na chyhoeddwyd mo'i gyfieithiad, sef *Eikon Basilike* neu *The King's Book* (gweler *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 141-4). Cafwyd hyd i'r cyfieithiad hwn, sydd yn llawysgrifen Vaughan ei hun, ymysg llawysgrifau Brogyntyn a anfonwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol gan yr **arglwydd Harlech**, un o ddisgynyddion y cynol **John Owen**, y cyflwynodd Vaughan y gwaith iddo. Rhan yn unig o'r cyfieithiad sydd ar gael ynghyd â'r llythyr cyflwyno; ar hyn gweler *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 141-4.

Bu farw Rowland Vaughan 18 Medi 1667. Ei fab hynaf, John, a etifeddodd y stad, a gorwyres iddo ef, Mary Elizabeth (ganwyd 1709), priod y Parchedig Henry Mainwaring, rheithor Etwall, a werthodd Gaer Gai a Thref Brysg i **Syr Watkin Williams Wynn** tua 1740.

Y mae'r erthygl uchod ar Rowland Vaughan yn delio â phrif aelod y teulu hwn ac â rhai o'i hynafiaid a'i ddisgynyddion. Amcan y nodyn ychwanegol hwn yw galw sylw at rai cyfeiriadau llenyddol a hanesyddol at Rowland Vaughan, etc., yng ngweithiau ' **Phylipiadau Ardudwy** '. Bu **Richard Phylip** yn ' fardd teulu ' **Nannau**, gerllaw Dolgellau, am gyfnod, ac ysgrifennodd gywydd marwnad Annes, ferch **Rhys Fychan**, Nannau, gwraig Hugh Nanney, sef nain Rowland Vaughan; ceir englynion gan Rowland Vaughan ar yr un amgylchiad i'w nain ac i'w daid. Pan fu Elin Nanney, mam Rowland Vaughan, farw yn 1617, canodd **Richard Phylip** farwnad ar ei hôl. Ymhlith englynion **Richard Phylip** y mae un i ateb englyn a ysgrifenasai Rowland Vaughan; canodd hefyd ddau englyn ' Ar y newydd fod mr. Rowlant fychan wedi cael barn gidag ef am Gaer Gai,' yn 1637, a thri englyn i ateb tri gan Vaughan ynghylch Rhiwedog. Ysgrifennodd **Richard Phylip** gywydd ' I ofyn newid milgwn [i Rolant Vaughan] ' a chywydd i ofyn i John Vaughan roddi milgi llwyd i **Lewis Gwyn**, Dolaugwyn, gerllaw Towyn. Ceir chwe englyn, 'Mawl i'r Cyfieithydd,' sef Rowland Vaughan, gan **Gruffydd Phylip** yn nechrau *Yr Ymarfer o Dduwioldeb*, 1630. Dyfynnir yn *Cymm.*, xlii, 217-8, sef yn yr erthygl ar ' Phylipiadau Ardudwy,' yr hanes a ddyry **Walter Davies** ('Gwallter Mechain') yn *Eos Ceiriog*, 1823, am y gyfathrach rhwng Rowland Vaughan a **William Phylip**, Hendre Fechan, Ardudwy. Ceir hefyd gan **William Phylip** ' Englynion o gwyn pan fu Rowlant Fychan Caergai yn y Rhyfel ' a dau englyn yn cyfeirio at losgi Caergai ac **Ynysmaengwyn** yn 1645. Pan fu Gruffydd Vaughan, brawd Rowland Vaughan, farw yn 1638, canodd **William Phylip** ddwy farwnad; yn ddiweddarach canodd John Vaughan, aer Caer Gai, sef mab Rowland Vaughan, 'gywydd yr adar,' ac atebwyd hwn gan **William Phylip** mewn 'cywydd ateb i gywydd yr adar,' a deitlir yn Cardiff MS. 64 fel hyn: 'Cyfarchiad ne ymddiddan rhwng yr erur a William Phylip yn amser Cromwell am fod yr adar heb ganu.'

Awduron

Megan Ellis, (1906 - 2001)

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Lewis Bayly, Rowland Vaughan (cyf.), *Yr Ymarfer o Dduwioldeb, yn cyfarwyddo dyn i rodio fal y rhyngo ef fodd Duw* (Llundain 1630)

Darllen Pellach

John Gwynfor Jones, Rowland Vaughan o Gaer-gai a'i gyfieithiad o 'Eikon Basilike' (1650), *Y Traethodydd*, Cyf. 156 (2001), tt.18-40

Erthygl Wicipedia: [Rowland Vaughan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7372196](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

[Gfrannu](#)

Arddull APA

x

Ellis, M., & Davies, W. Ll., (1953). VAUGHAN, ROWLAND (c. 1590 -1667), Caer Gai, Sir Feirionnydd, bardd, cyfieithydd, a Brenhinwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-VAUG-ROW-1590>

[Llyfrgell](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Wedi'i parhau
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government